

Canllaw a pholisi defnydd derbyniol o dechnoleg i ddysgwyr



Cynnwys:

1. [Cyflwyniad](#)
2. [Amcanion](#)
3. [Cytundeb Dysgwyr](#)
4. [Atodiad – Dysgu o Bell](#)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydnabod y cyfraniad hanfodol a phwysig y mae technoleg yn ei wneud wrth hyrwyddo dysgu a datblygiad dysgwyr, yn yr ysgol ac yn y cartref, ac mae'n cydnabod bod Cyfrifiadura yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Mae gan bob dysgwr y cyfle i ddefnyddio ystod o adnoddau TG yn yr ysgol, gan gynnwys mynediad i'r rhyngwrwyd, fel rhan hanfodol o ddysgu. Mae hyn yn cynnwys mynediad i:

- Gyfrifiaduron, gliniaduron a dyfeisiau digidol eraill
- Y rhyngwrwyd, a all gynnwys peiriannau chwilio a gwefannau addysgol
- Llwyfannau / mewnrwyd dysgu ysgol
- E-bost
- Consolau gemau a thechnolegau eraill sy'n seiliedig ar gemau
- Camerâu digidol, gwe-gamerâu a chamerâu fideo

1.2. Mae'r polisi hwn yn nodi disgwyliadau'r ysgol ar gyfer dysgwyr o ran sut maent yn defnyddio ac yn rhyngweithio â systemau TG yr ysgol. Bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

1.3. Mae'r polisi hwn yn cysylltu â pholisïau eraill, gan gynnwys:

- Polisi Gwrth-fwlio
- Polisi Diogelu
- Polisi Addysg Rhyw a Pherthynas (ARhPh)

[Brig y ddogfen](#)

2. Amcanion

2.1. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn ceisio sicrhau bod pob aelod o'n cymuned yn defnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol. Byddwn yn cefnogi ein dysgwyr i:

- Ddod yn ddefnyddwyr digidol grymus a chyfrifol
- Ddefnyddio ein hadnoddau a'n technoleg yn ddiogel, yn ofalus ac yn gyfrifol, gan barchu diogelwch system a diogelwch cyfrineiriau
- Fod yn garedig ar-lein a'n cynorthwyo ni i greu cymuned sy'n barchus ac yn ofalgar, ar ac oddi ar-lein
- Fod yn ddiogel ac yn gall ar-lein, ac i fod yn ymwybodol bob amser y gallan nhw siarad ag oedolyn dibynadwy os ydynt yn ansicr neu angen help.

2.2. Rydym yn cymeradwyo ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymddygiad diogel. Ystyrir yr isod yn faterion difrifol ac ymdrinnir â hwy yn unol â pholisiau ymddygiad a gwrth-fwlio ein hysgol:

- Llwytho neu ychwanegu unrhyw delweddau, fideo, darnau sain neu negeseuon a allai gynhyrfu, bygwth diogelwch neu dargedu unrhyw aelod o gymuned yr ysgol
- Camddefnyddio neu achosi difrod bwriadol i offer ysgol
- Defnyddio technoleg heb ganiatâd a/neu ar adegau na chaniateir
- Twyllo systemau hidlo a monitro ysgolion (mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y defnydd o VPN, dyfeisiau 'hotspot' personol, ceisio newid gosodiadau cyfrifiaduron ysgolion, defnyddio apiau cludadwy a phorwyr anhysbys)

2.3. Rydym yn cydnabod bod peryglon posibl. Bydd yr ysgol yn cymryd pob gofal rhesymol, gan gynnwys systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod dysgwyr a staff mor ddiogel â phosibl wrth ddefnyddio offer ysgol, ein rhyngwrwyd a'n systemau. Bydd y monitro hwn yn gymesur a bydd yn digwydd yn unol â deddfwriaeth diogelu data (gan gynnwys GDPR), preifatrwydd a hawliau dynol. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i fonitro gweithgaredd holl ddefnyddwyr systemau'r ysgol. Byddwn yn cyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau monitro a hidlo:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/recommended-web-filtering-standards-for-schools-in-wales.pdf>

2.4. Rydym yn cydnabod bod y rhyngwrwyd yn amgylchedd sy'n newid yn gyson gydag apiau a rhaglenni, dyfeisiau, gwefannau a deunydd newydd yn dod i'r amlwg trwy'r amser. Byddwn yn adolygu'r dulliau a ddefnyddir i nodi, asesu a lleihau risgiau ar-lein yn rheolaidd. Byddwn yn archwilio technolegau sy'n dod i'r amlwg er budd addysgol a chynnal asesiadau risg priodol cyn y caniateir eu defnyddio yn yr ysgol. Ni ellir dal yr ysgol yn gyfrifol am natur a chynnwys deunyddiau a gyrchir ar y rhyngwrwyd.

2.5. Os credwn fod disgybl wedi cyflawni trosedd, cysylltir â'r awdurdodau priodol. Rhaid defnyddio systemau gwybodaeth sy'n eiddo i ysgolion, gan gynnwys Wi-Fi, yn gyfreithlon. Mae'r canlynol yn droseddau: cael mynediad heb awdurdod i ddeunydd cyfrifiadurol; cael mynediad heb awdurdod i ddeunydd cyfrifiadurol gyda'r bwriad o gyflawni neu hwyluso cyflawni troseddau pellach neu i addasu deunydd cyfrifiadurol heb awdurdod.

2.6. Rydym yn cydnabod na all unrhyw system dechnegol ddisodli addysg ddiogelwch ar-lein. Bydd ein staff yn:

- Gwreiddio addysg ddiogelwch ar-lein wrth gyflawni'r cwricwlwm, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Modelu arfer dda wrth ddefnyddio technoleg a chynnal lefel broffesiynol o ymddygiad yn eu defnydd personol o dechnoleg, ar ac oddi ar y safle.
- Trosglwyddo unrhyw faterion sy'n codi i'r rheolwr gyswllt neu'r Swyddog Diogelu Dynodedig.

2.7. Ystyrir bod rhai dysgwyr yn fwy agored i niwed ar-lein oherwydd ystod o ffactorau. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i blant mewn gofal, plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (ADY) neu anghenion iechyd meddwl, plant â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a phlant sy'n profi trawma neu golled (ACEs). Byddwn yn sicrhau bod addysg, mynediad a chefnogaeth ddiogelwch ar-lein gwahaniaethol a gallu priodol yn cael ei darparu i ddisgyblion sy'n agored i niwed ac yn ceisio mewnbwn gan staff arbenigol fel sy'n briodol, gan gynnwys yr ALENCO a'r Arweinydd Plant mewn Gofal.

2.8. Credwn fod gan ddysgwyr a rhieni ran bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu ymddygiad cyfrifol. Er mwyn cefnogi ein hysgolion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr am ddiogelwch ar-lein, byddwn yn rhannu'r polisi hwn â dysgwyr yn yr ysgol ac yn annog rhieni i ddarllen a thrafod y polisi gyda'r plant gartref.

Rydym yn caniatáu i ddysgwyr ddod â'u ffonau symudol a / neu dabledi i'r ysgol, ond maent yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y dysgwr / perchennog bob amser. Dylent gael eu hyswiro a'u diffodd bob amser, oni bai bod aelodau staff yn gofyn i ddysgwyr eu defnyddio at ddibenion addysgol. Ni fydd mynediad i'r rhyngwrwyd i ddisgyblion trwy ffonau symudol neu dabledi. Pan nad yw disgyblion yn parchu'r rheolau hyn, bydd y ddyfais yn cael ei gymryd a'i chadw'n ddiogel yn y swyddfa tan ddiwedd y dydd. Pe bai hyn yn digwydd ar fwy nag un achlysur, mae'r ysgol yn cadw'r hawl i gymryd camau pellach, megis cadw'r ddyfais nes ei bod yn cael ei chasglu gan riant.

Os bydd mater diogelu yn codi (e.e. disgyblion yn ffilmio eraill) bydd yr ysgol yn cysylltu â'r heddlu a all ofyn am archwilio'r ddyfais.

2.9. Gofynnwn i bob rhiant gefnogi ein hagwedd tuag at ddiogelwch ar-lein trwy fodelu rôl ymddygiad diogel a chadarnhaol ar-lein, megis rhannu delweddau, testun a fideo yn gyfrifol, a thrwy drafod diogelwch ar-lein pryd bynnag y bydd plant yn cyrchu technoleg gartref.

2.10. Gall dysgwyr neu rieni siarad â'r Swyddog Diogelu Dynodedig am unrhyw bryderon.

2.11. Rydym yn annog dysgwyr a rhieni i ddarganfod mwy o wybodaeth trwy wefannau eraill fel:

- www.thinkuknow.co.uk
- www.childnet.com
- www.nspcc.org.uk/onlinesafety
- www.saferinternet.org.uk
- www.internetmatters.org

[Brig y ddogfen](#)

3. Cytundeb Dysgwr

3.1. Caniateir i ddsygwyr ddefnyddio systemau TG yr ysgol ar yr amodau canlynol:

1. Dim ond ar gyfer gwaith/materion ysgol y byddaf yn defnyddio systemau TGCh yr ysgol, gan gynnwys y rhyngrwyd, e-bost, fideo digidol, technolegau symudol, ac ati.
2. Ni fyddaf yn lawrlwytho nac yn gosod meddalwedd ar dechnolegau ysgolion.
3. Dim ond gyda fy enw defnyddiwr a chyfrinair fy hun y byddaf yn mewngofnodi i rwydwaith yr ysgol / Llwyfan Dysgu.
4. Byddaf yn dilyn system ddiogelwch TGCh yr ysgol a ni fyddaf yn datgelu fy nghyfrineiriau i unrhyw un. Byddaf yn eu newid yn rheolaidd.
5. Dim ond fy nghyfeiriad e-bost ysgol y byddaf yn ei ddefnyddio.
6. Byddaf yn sicrhau bod pob cyfathrebiad TGCh â dysgwyr, athrawon neu eraill yn gyfrifol ac yn gall, a trwy gyfrwng y Gymraeg. Sylweddolaf y gall gymryd hyd at 5 diwrnod gwaith i athro ymateb.
7. Byddaf yn gyfrifol am fy ymddygiad wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys adnoddau rwy'n eu cyrchu a'r iaith rwy'n ei defnyddio.
8. Ni fyddaf yn fwriadol yn pori, lawrlwytho, uwchlwytho nac anfon deunydd y gellid ei ystyried yn anaddas neu'n anghyfreithlon. Os ydw i'n dod ar draws unrhyw ddeunydd o'r fath ar ddamwain, byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i'm hathro.
9. Byddaf yn sicrhau na fydd fy ngweithgaredd ar-lein, yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, yn achosi niwed i'm hysgol, y staff, y disgyblion nac eraill nac yn dod ag enw drwg iddyn nhw.
10. Byddaf yn cefnogi dull yr ysgol o ymdrin â diogelwch ar-lein a pheidio â llwytho i fyny nac ychwanegu unrhyw ddelweddau, fideo, darnau sain neu negeseuon anaddas.
11. Byddaf yn parchu preifatrwydd a pherchnogaeth gwaith pobl eraill ar-lein bob amser. Nid fyddaf yn dileu unrhyw beth a rennir gyda mi gan aelod o staff.
12. Ni fyddaf yn ceisio twyllo y system hidlo'r rhyngrwyd.
13. Rwy'n deall y gellir monitro a chofnodi fy holl ddefnydd o'r Rhyngrwyd a thechnolegau cysylltiedig eraill yn yr ysgol ac y gallant fod ar gael ar gais i athrawon neu'r heddlu.
14. Os ydw i'n dewis dod â dyfais (gan gynnwys fy ffôn) i'r ysgol, mae'r ddyfais yn gyfrifoldeb i mi (a/neu'r perchennog), a dylid ei yswirio. Rydw i'n deall bod y ddyfais i fod i aros yn fy mag/locer, wedi ei diffodd, os nad oes athro/aelod o staff yn gofyn i mi ei defnyddio. Ni fydd gen i fynediad i'r Wifi yn yr ysgol trwy'r ddyfais yma. Rydw i'n deall bod hawl gan yr athro i gymryd y ddyfais oddi wrthaf os nad ydw i'n cydymffurfio gyda'r gofynion yma.
15. Rwy'n deall bod y rheolau hyn wedi'u cynllunio i'm cadw'n ddiogel ac os na chânt eu dilyn, bydd sancsiynau ysgol yn cael eu gweithredu a chysylltir â fy rhiant / gofalwr.

Wrth dderbyn lle yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, rydych yn derbyn ac yn cytuno i ddilyn y canllaw a'r polisi yma.

[Brig y ddogfen](#)

4. Atodiad - Dysgu o bell

Wrth ymuno gyda'r wers rydych yn cytuno i ddilyn a pharchu'r canllawiau yma.

Cytundeb Google Meets: Dysgwyr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed



Byddaf yn...



- brydlon
- gwneud yn siwr bod gennyf bopeth sydd ei angen ar gyfer y wers
- dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein
- gwisgo'n addas (fel petaech yn mynd i'r ysgol ar ddiwrnod gwisg anffurfiol)
- sicrhau fy mod yn ymuno o leoliad addas a niwlio'r 'cefnidir' (*blur*)
- cwblhau'r gwaith a gwneud fy nghorau glas ac yn gofyn am gymorth os nad ydw i'n deall
- cyfrannu at y wers/sesiwn mewn ffordd gadarnhaol, a pheidio â tharfu arni ar unrhyw adeg
- peidio â rhannu lluniau, clipiau na sain o'r sesiwn neu wers
- ddiffodd microffon pan nad oes angen i mi siarad a defnyddio'r 'llaw i fyny' er mwyn holi cwestiwn.
- defnyddio'r camera i'r athro allu fy ngweld os ydw i'n gyfforddus i wneud.

Mae pob sesiwn byw yn cael ei recordio am resymau diogelwch. Ni fydd y recordiad yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

Os nad ydych yn cyd-ymffurfio gyda'r canllawiau yma neu os ydych yn tarfu ar y wers bydd modd i'r athro eich dileu o'r wers fyw.

[Brig y ddogfen](#)